

## Astudiaeth achos o arfer da

### Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales

Yn dilyn uno Cymdeithas y Gweithwyr yng Nghymru a Choleg Cymunedol YMCA Cymru yn Awst 2015, aeth y mudiad drwy gyfnod deuddeg mis o frandio deuol tan y gellid cytuno ar enw a brand newydd drwy bleidlais gan ei aelodau yn Nhachwedd 2016.

Gyda'r enw a'r logo newydd wedi'i gytuno, dechreuwyd gweithio ar ddiweddarau dogfennau dysgu ac addysgu, oedd hefyd yn gyfle da i adolygu'r adnoddau a'r cynnyrch rydyn ni'n eu cynnig i roi cymorth i ddysgwyr. Roedd rhan o'r gwaith hwn yn golygu adolygu ein llawlyfr i ddysgwyr.

Doedd y llawlyfr i ddysgwyr ddim wedi newid llawer ers blynyddoedd, ac roedd wedi cael ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd. O'r herwydd, roedd y llawlyfr A5 yn 5mm o drwch, yn 58 tudalen ond yn cynnwys dim ond dwy ddelwedd; teimlwyd ei fod yn arf llai effeithiol o ran rhoi cymorth i ddysgwyr. Roedd amryw o diwtoriaid hefyd wedi mynegi pryderon ynglŷn â phwysau'r llawlyfrau a'r angen i'w cludo i ddsbarthiadau. Cytunwyd felly bod angen creu rhywbeth newydd a gwell, ac mai nawr oedd yr adeg briodol i fynd i'r afael â hyn.

Er mwyn llunio rhywbeth newydd fyddai'n diwallu anghenion dysgwyr (a thiwtoriaid), dechreuwyd ar gyfnod o ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol. Y cam cyntaf oedd gwrandao ar yr hyn oedd gan ddysgwyr i'w ddweud. Trefnwyd grŵp ffocws er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr roi eu barn ar yr hen lawlyfr, yn ogystal â gwneud argymhellion ar gyfer beth fyddai'n diwallu eu hanghenion yn well. Er mwyn cynorthwyo â'r gwaith hwn, cyflwynwyd sawl ffurf amgen ar gyfer sut ffurf allai fod i'r llawlyfr dysgwyr. Roedd adborth gan ddysgwyr ar y llawlyfr presennol yn cynnwys sylwadau megis: "mae'n rhy drwm", "nid yw'n berthnasol i mi" a "dechreuais ei ddarllen, gan feddwl mai llyfr yr athro oedd e, felly wnes i ddim parhau". Hefyd dywedodd dysgwyr eu bod am ddarllen straeon dysgwyr eraill, cael mynediad i wybodaeth leol a bod â rhywle i ysgrifennu nodiadau i'w hatgoffa ar gyfer eu gwers nesaf.

Yn ogystal â'r sylwadau a gasglwyd gan ddysgwyr, ceisiwyd adborth gan nifer arwyddocaol o staff, gan gynnwys tiwtoriaid, Swyddogion Cyflawni'r Cwricwlwm a'r Swyddog Dwyieithrwydd. Defnyddiwyd yr adborth i flaenoriaethu'r cynnwys newydd a llunio samplau ar gyfer y llawlyfr newydd.

Cynhaliwyd prawf o'r samplau newydd drwy ymgynghori pellach â rhanddeiliaid, er mwyn sicrhau cynnyrch fyddai'n diwallu anghenion y dysgwr, y tiwtor a'r mudiad. O ganlyniad i hyn, mae llawlyfr y dysgwr ar ei newydd wedd yn llawer mwy cryno a hawdd ei ddefnyddio - mae ar ffurf A6, y gallwch ei roi yn eich poced. Mae'n cynnwys straeon ysbrydoledig gan ddysgwyr, rhifau cyswllt defnyddiol, gwybodaeth ynglŷn â chyllido a chymorth i ddysgwyr, yn ogystal â chanllawiau ar lôn-ladradd, cam-ymarfer a chod ymddygiad ar gyfer dysgwyr. Hefyd, er mwyn cynorthwyo dysgu ac addysgu, mae'r llyfryn cryno nawr yn cynnwys canllawiau ar gyfer marcio llythrennedd, calendr cynllunio 10 wythnos a thudalennau ychwanegol ar gyfer gwneud eich nodiadau eich hun.

Hyd yma, mae'r llawlyfr newydd wedi cael derbyniad cadarnhaol, ond mae'n fwrriad cynnal ymgynghoriad pellach â dysgwyr cyn diwedd y flwyddyn academaidd er mwyn canfod os oes angen gwneud unrhyw adolygiadau cyn mynd ati i'w argraffu. Ynghyd â hyn, mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i sicrhau bod

canllawiau i ddysgwyr ar ffurf electronig ar gael ar-lein pan gaiff y wefan newydd ei lansio.